# Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

**2013 dccc 4**

## RHAN 2

COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

*Staff, arbenigwyr a chomisiynwyr cynorthwyol*

### 11 Comisiynwyr cynorthwyol

(1) Caiff y Comisiwn benodi person ("comisiynydd cynorthwyol") y caiff, at ddibenion adran 13, ddirprwyo swyddogaethau iddo.

(2) Ond ni chaiff y Comisiwn benodi person sydd yn—

- (a) aelod Seneddol;
- (b) aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru;
- (c) aelod o awdurdod lleol [F1]...;
- (d) swyddog i awdurdod lleol [F2]...;
- (e) aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;
- (f) comisiynydd heddlu a throsedd ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru; neu
- (g) aelod o staff y Comisiwn.

(3) Cyn penodi comisiynydd cynorthwyol rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Gweinidogion Cymru.

(4) Caiff y Comisiwn dalu unrhyw dâl, lwfansau neu dreuliau a benderfynir ganddo i gomisiynydd cynorthwyol.

(5) Rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn penderfynu ar y tâl neu'r lwfansau sy'n daladwy i gomisiynydd cynorthwyol.

### Diwygiadau Testunol

**F1** Geiriau yn a. 11(2)(c) wedi eu hepgor (1.4.2021) yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (asc 1), **aau. 163(6)**, 175(7); O.S. 2021/231, ergl. 3(a)

**F2** Geiriau yn a. 11(2)(d) wedi eu hepgor (1.4.2021) yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (asc 1), **aau. 163(6)**, 175(7); O.S. 2021/231, ergl. 3(a)

### Gwybodaeth Cychwyn

**I1** A. 11 mewn grym ar 30.9.2013, gweler **a. 75(2)(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, Adran 11.